## ❖ Byd Oer Fyddai Byd Heb Iesu

Byd oer fyddai hwn, Iesu,
oni bai i ti ddod iddo gynt
a chynhesu ei stafelloedd digroeso â gwres dy gariad,
yn gartref i blant Duw
ac i blant eu plant:
mae yma chwa gynnes yn aros o hyd
wedi i ti ddod yma.
Byd tywyll iawn fyddai hwn, O Grist,
oni bai i ti osod dy ffenestri ynddo
i dderbyn goleuni dydd,
a rhoi dy lampau yn ei stafelloedd ar gyfer y nos;
yn d'oleuni di y gwelwn pwy ydym,
ac o ble y daethom,
a sut mae byw yma,
ac i ble yr awn ar ôl hyn:
a'r neb a'th welodd di a welodd y Tad.
A thrist o fyd fyddai hwn, Waredwr,
heb dy ddyfodiad llawen di:
gwahoddaist gredinwyr i wledd briodas,
i fod yn llawen gyda'r Priodfab
ar ddydd o lawen chwedl;
maddau inni'n fynych golli'r llawenydd,
fel pe baem heb glywed yr Efengyl,
na chlywed am ei gorfoledd.
Cadw ni, y Brenin Iesu,
rhag i'r barrug ddisgyn ar ein calonnau,
rhag i'r nos dywyllu ein meddyliau,
a dyfod tristwch i'r enaid.
Ble byddi di mae'n gynnes,
mae'n olau, mae'n orfoleddus.
'Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu.'

**R. Gwilym Hughes**

℗ Cyhoeddiadau'r Gair www.ysgolsul.com